# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog*
# *Harbour Consultative Committee*

## *24 Medi/September 2008*

***Adroddiad yr Uned Forwrol - Maritime Unit Report***

***1 - Morwriaeth / Navigation***

***1.1*** Archwiliwyd yr holl Gymhorthion Mordwyo gan swyddog Tŷ'r Drindod ar yr 11eg Awst 2008. Adroddwyd gan y swyddog bod yr holl gymhorthion mordwyo a fu yn arwain morwyr i'r harbwr mewn cyflwr derbyniol.

***1.2*** Yn ystod tymor yr haf oherwydd newidiadau yn y sianel fordwyo, fe roedd yn anorfod ail leoli *Cymhorthion Mordwyo Rhif 10; a hefyd Rhif 11.* Mae'r Bwi Tramwyo- -L.Fl.W 10s, (Fairway) wedi ei newid, ac fe fydd y bwi blaenorol yn cael ei gynnal a chadw gan staff yr harbwr yn ystod misoedd y gaeaf.

***1.3*** Yn ystod y gwyntoedd cryfion diweddar, daeth cymhorthion ***Rhif 1*** a ***Rhif 3*** i'r lan. Fe ail leolwyd y ddau gymhorthydd ond yn anffodus, daeth bwi ***Rhif 3*** yn ôl i'r lan yn ystod tywydd garw. Mae cymhorthydd ***Rhif 3*** yn parhau oddi ar ei safle ac fe fawr obeithir, unwaith bydd y gwyntoedd yn gostegu, fe fydd y cymhorthydd mordwyo yn cael ei ail leoli. Mae yn ymddangos y bod cymhorthydd mordwyo ***Rhif 13*** wedi cael ei daro gan gwch ac wedi ei ddifrodi. Fe fydd yn cael ei gasglu gan staff yr harbwr ac yn cael ei gynnal a chadw cyn ei ail leoli erbyn canol mis Hydref 2008.

***1.4*** Yn unol â'r arferiad, fe osodwyd **wyth** llusern ar y cymhorthion mordwyo pwysicaf, ac unwaith yn rhagor eleni, fe gwblhawyd y gwaith hwn cyn y 30 Ebrill 2008, sef yn unol â target yr Uned Forwrol. Disgwylir bydd y trefniant hwn yn parhau at y dyfodol.

***1.5*** Mae'r Uned Forwrol wedi ystyried goleuo cymhorthion mordwyo ardal Borth y Gest ac fe ddaethpwyd i'r canlyniad y byddai hyn o gymorth i forwyr. Mawr obeithir bydd yn bosibl sicrhau bod y goleuadau ychwanegol ar eu safleoedd priodol erbyn cychwyn y tymor nesaf yn 2009. Yn unol â'r trefniant yn 2007, bwriedir parhau gyda goleuo'r cymhorthion mordwyo dros fisoedd y gaeaf.

***1.6*** Bwriedir paratoi rhaglen cynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo yn ystod yr hydref. Oherwydd pwysigrwydd y llusernau, mae'r Uned Forwrol yn bwriadu parhau gyda'r llusernau drwy'r gaeaf.

***1.7*** Mae nodweddion y llusernau (golau yn unig) fel a ganlyn:-

**Bwi Tramwyo/Fairway Buoy-L.Fl.W 10s.**
**Rh/No 1 Q Fl.R. Rh/No 2 Q Fl.R. Rh/No 3 Fl.G 3s.**
**Rh/No 4 Fl.R(2) 5s. Rh/No 5 Fl.G(2)5s. Rh/No 6 Fl.R(3) 10s. Rh/No 7 Fl.G(3) 10s. Rh/No 8 Fl.R(4) 15s. Rh/No 9 Fl.G(4) 15s. Rh/No 10 Fl.R 2.5s.**

**1.8** Mae cyflwr y bibell arllwys yn ardal Borth y gest yn gwaethygu ac fe fydd angen cymryd camau uniongyrchol yn ystod llanw fawr er sicrhau na fod y bibell yn achosi unrhyw berygl i gychod sydd yn mordwyo yn yr ardal. Fe fydd yr Uned Forwrol yn cysylltu ymhellach gyda Dŵr Cymru er ceisio cadarnhad perchenogaeth y bibell arllwys dŵr.

## ***2 – <u>Perchenogaeth Yr Harbwr / Harbour Ownership</u>***

***2.1*** Ar y 10fed Awst 1977, fe gwblhawyd trawsgludiad rhwng Barwn Formoy ac Eraill, a chyn Cyngor Dosbarth Dwyfor. Roedd y trawsgludiad yn cyfeirio at berchenogaeth gwely'r môr oddi fewn rhan o awdurdodaeth harbwr Porthmadog.

***2.2*** Roedd cymal saith o'r trawsgludiad wedi geirio fel a ganlyn ***'The vendors in execution of the trusts for sale declare by the 1953 Conveyance have agreed with the Council for the sale to them of all such ights or interest (if any) as the vendors may have in the property hereinafter described at the price of Two thousand pounds'.***

***2.3*** Yn ddiweddar, fe archwiliwyd y trawsgludiad ac fe dderbyniwyd barn gyfreithiol na fod gwely' mor mewn rhan o harbwr Porthmadog a fu wedi ymddangos yn y cynllun a atodwyd i'r trawsgludiad ym mherchenogaeth Cyngor Gwynedd wedi'r cyfan. Mae yn ymddangos fod y geiriau '***(if any)'*** fel sydd yn ymddangos uchod yn arwyddocaol

***2.4*** Nid yw'r tir wedi ei gofrestru gyda'r Swyddfa Gofrestru Tir yn enw Cyngor Gwynedd. Mae'r ardal wedi ei gynnwys oddi fewn Prydles Blaendraeth rhwng Cyngor Gwynedd a Stad Y Goron. Nid yw'r sefyllfa ddiweddaraf yn achosi unrhyw newidiadau rheoli harbwr neu hawliau a chyfrifoldebau eraill sydd gan Gyngor Gwynedd mewn perthynas â rheoli harbwr statudol.

## *3 - <u>Is ddeddfau Harbwr / Harbour By laws</u>*

***3.1*** Mae Is ddeddfau drafft ar gyfer harbwr Porthmadog eisoes wedi eu cyflwyno i'r Uned Gyfreithiol. Yn unol ag adroddiad a gyflwynwyd ger bron Aelodau ym mis Mawrth 2007, fe gyflwynwyd gwybodaeth bod swyddogion o'r uned gyfreithiol wedi cyflwyno'r Is Ddeddfau i sylw'r Adran Drafnidiaeth yn Llundain er sicrhau bod yr Is ddeddfau yn cael eu mabwysiadu yn ffurfiol.

***3.2*** Mae llithriad sylweddol yn y rhaglen, ac er ymdrechion swyddogion yr Uned Gyfreithiol, yn anffodus ni chafwyd ymateb gan yr Adran drafnidiaeth ac felly, ni chafodd yr Is Ddeddfau eu mabwysiadu yn ystod yr haf eleni sydd yn siom fawr. Mawr obeithir bydd yr is ddeddfau drafft yn cael eu cadarnhau gan yr Adran Drafnidiaeth mor fuan â phosibl, ac yn parhau i ddod i rym yn 2008/09.

## *4 – <u>Datblygiadau Clwb Hwylio</u>*

***4.1*** Fel y bydd Aelodau yn ymwybodol, mae'r Uned Forwrol wedi derbyn cais pellach gan Glwb Hwylio Madog yn ceisio caniatâd i ymestyn y cyfleusterau pontŵn presennol. Gan fod y llithrfa bresennol wedi caei ei ymestyn, a hyn ar gost sylweddol, ni ragwelir bydd yn bosibl ar hyn o bryd ymestyn y pontŵn gan fyddai unrhyw estyniad yn amharu ar ddefnydd y llithrfa, yn enwedig ar y trai. Mae yn debygol iawn bydd y mater yn ymwneud a pherchenogaeth gwely'r môr hefyd yn cael dylanwad ar hyn.

***4.2*** Yn ystod 2007, fe dderbyniwyd cais gan berchennog tir cyfagos yn ceisio caniatâd er lleoli pontŵn yn ardal yr harbwr. Yn y drafodaeth a gafwyd fel eitem brys mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar y 14eg Fawrth 2007, nid oedd gan yr Aelodau wrthwynebiad mewn egwyddor ond pwysleisiwyd bod angen tynnu sylw'r ymgeisydd at gryfder y llanw, a chyflwr y môr mewn tywydd garw yn yr ardal. Roedd hefyd pryder ynglŷn â chyfyngu'r sianel fordwyo pe byddai'r pontŵn yn ymestyn allan i'r sianel.

**4.3** Mae'r ymgeisydd wedi ystyried sylwadau'r Pwyllgor Ymgynghorol ac wedi ail gyflwyno cynllun fel sydd yn ymddangos yn yr atodiad. Fe fydd y mater yn derbyn sylw gan yr Uned Eiddo ac Uned Gyfreithiol y Cyngor yn y dyfodol agos.

## *5 – <u>Ystadegau Harbwr / Harbour Statistics</u>*

***5.1*** Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad, y bod yna ***871*** o Fadau Dwr Personol wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd yn 2008, ac mae hyn yn cymharu â ***1040*** yn 2007, sef **169** yn llai eleni. Nodi'r hefyd bod nifer o Fadau Dwr Personol a

Chychod Pŵer a fu wedi cofrestru yn swyddfa Harbwr Porthmadog ac ar draeth y Graig Ddu wedi lleihau mewn cymhariaeth a'r nifer a fu wedi cofrestru yn **2007**. Diau fod y sefyllfa economaidd a phris tanwydd yn cael effaith sylweddol ar ddefnydd cychod pŵer a Badau Dwr Personol ar yr arfordir.

***5.2*** Fel a nodi'r yn y tabl, cofrestrwyd **30** o gychod pŵer yn harbwr Porthmadog, ac fe gofrestrwyd ***25*** o gychod pŵer ar draeth y Graig Ddu eleni. Mae ffi cofrestru Cychod Pŵer a Badau Dwr Personol yn parhau fel y llynedd sef ***£14.00*** drwy'r post, neu ***£20.00*** ar y traeth, neu yn swyddfa'r harbwr. Mae ffi lansio yn ***£12.00*** y dydd neu ***£124.00*** am y tymor.

***5.3*** Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad, y bod yna ***195*** cwch pleser wedi angori yn yr harbwr eleni. Mae yn angenrheidiol bod y Swyddog Morwrol Harbyrau gyda chymorth yr Harbwr Feistr yn cysylltu gyda phob perchennog cwch a fu wedi gadael yr harbwr er ceisio gwybodaeth am y rheswm pam na fu i'r cwch gael eu hangori ym Mhorthmadog yn 2008/09.

## *6* ***Canlyniad Barn Cwsmer / Analysis of Customer Questionnaire***

Fe fydd adroddiad barn Cwsmeriaid yn cael ei gyflwyno ger bron Aelodau Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog yn y cyfarfod cyntaf yn 2009.

## *7* ***Cyllidebau / Budgets***

***7.1*** Atodir er gwybodaeth Aelodau, adroddiad terfynol cyllideb yr harbwr am y flwyddyn ariannol ***2007/08***, a hefyd cyllideb refeniw a thargedau incwm yr harbwr am y flwyddyn ariannol ***2008/09***.

***7.2*** Oherwydd y tebygrwydd na fydd yr Uned Forwrol yn cyrraedd eu targed incwm yn y flwyddyn ariannol gyfredol, bydd angen bod yn wyliadwrus iawn er sicrhau na fydd y gwasanaeth yn ymrwymo arian tu hwnt i'r gyllideb. Mae'r Swyddog Morwrol Harbyrau, gyda chymorth yr Harbwr Feistr yn darparu rhaglen waith ar gyfer yr hydref, er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant yn harbwr Porthmadog.

***7.3*** Mae yn galonogol adrodd ar un llaw bod y targed incwm am y flwyddyn ariannol gyfredol, sef ***£78,260***, bron wedi ei gyrraedd. Mae incwm harbwr Porthmadog yn ***£75,473*** hyd yma, sef **£2,787** yn is na tharged. Ni ragwelir bydd yna ychwanegiad sylweddol yn yr incwm rhwng mis Hydref a diwedd mis Mawrth 2009.

## *8* *Strwythur Staffio Morwrol / Maritime Staffing Structure*

***8.1*** Fel yr adroddwyd eisoes, ar y 1af Fai 2007 fe roedd yna newidiadau staff (dros dro) yn Harbwr Porthmadog, Pwllheli ac Aberdyfi. Yn dilyn dyrchafiad cyn Harbwr Feistr Pwllheli, fe secondiwyd Harbwr Feistr Porthmadog i swydd Harbwr Feistr ym Mhwllheli; fe secondiwyd Swyddog Traethau Pwllheli i swydd Harbwr Feistr Porthmadog, ac fe secondiwyd Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi i swydd Cymhorthydd Traeth Pwllheli. Mae cyfnod y secondiad cyfredol yn dod i ddiwedd ar y 3o Fedi 2008.

***8.2*** Yn ystod tymor yr haf eleni, fe ymddiswyddodd yr Harbwr Feistr a oedd yn y swydd dros dro. Er sicrhau bod gan y Cyngor Harbwr Feistr ar ddyletswydd ym Mhorthmadog, fe secondiwyd yr Harbwr Feistr Cynorthwyol i'r swydd, a hyn hyd at ddiwedd mis Medi. Mae yn debyg, oherwydd newidiadau eraill, bydd y secondiad yn cael ei ymestyn hyd at ddiwedd Rhagfyr 2008.

## 9.0 *Materion Cyffredinol / General Issues*

***9.1*** Er sicrhau bod offer a chelfi, cadwyni, bwiau mordwyo a chychod gweini yn cael eu diogelu, mae ffens ddiogelwch wedi ei leoli rhwng adeilad yr harbwr a therfyn y compownd. Fe fydd y giât yn cael ei gorchuddio gyda choed addas er sicrhau bod y giât yn gweddu mewn i'r ardal.

***9.2*** Mae cwch rheoli newydd ar gyfer harbwr Porthmadog wedi ei gomisiynu ac wedi bod yn weithredol yn yr harbwr dros fisoedd y gaeaf. Roedd y cwch blaenorol wedi ei phrynu yn ail law ac yr ydym yn sicr bydd y cwch newydd yn fuddiol iawn er sicrhau rheolaeth yn yr harbwr.

***9.3*** Mae gan y Cyngor gyfanswm o 224 bwi tymhorol ar hyd a lled yr arfordir. Pwrpas y bwiau (melyn) yw sicrhau fod morwyr yn ymwybodol bod yna reolau arbennig mewn bodolaeth yn yr ardal ac mae'r bwiau yn hollol bwysig er ceisio diogelu defnyddwyr y traeth. Yn ystod tywydd garw'r haf eleni, collwyd 2 o'r bwiau ac fe ddaeth nifer helaeth o'r bwiau i'r lan. Amcan gyfrif bydd cyfanswm cost adnewyddu'r bwiau a fu wedi eu colli yn agos at £1,000.

## *10.0* *Cynnal a Chadw Angorfeydd*

***10.1*** Yn ystod y tymor eleni, cafwyd cryn drafferthion gydag aliniad rhai angorfeydd yn yr harbwr. Oherwydd bod cymaint o gadwyn llac ar wely'r môr, roedd yna angen cryfhau cadwyni ochrol gydag angorion yn ardal angorfeydd rhifau ***41***; ***117*** a hefyd ***119*** er sicrhau na fod cychod yn taro'i gilydd.

***10.2*** Yn ystod misoedd y gaeaf, fe fydd y Swyddog Morwrol Harbyrau, gyda chymorth yr Harbwr Feistr, yn cynnal archwiliad ar y nifer angorfeydd yn ardal Borth y Gest. Pe na fydd yr angorfa wedi ei ddefnyddio yn 2008, yna fe fydd perchennog yr angorfa yn derbyn cyfarwyddyd i'w glirio. Pe na fydd perchennog yr angorfa wedi ei adnabod cyn gŵyl y Nadolig, yna fe fydd swyddogion yr harbwr yn clirio'r angorfa.

***10.2*** Yn unol â'r drefn arferol, fe fydd holl angorion harbwr Porthmadog yn cael eu harchwilio a'u cynnal a chadw gan y contractwr penodedig yn ystod mis Ionawr 2009. Mae Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi yn sylweddol mewn cynnal a chadw ac adnewyddu cadwyni yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, ac ni ragwelir bydd angen buddsoddiad sylweddol yn 2009/09.